**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 1 Awst 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | M H Jones |
| S E Keeton | M B Lewis | M S Tribe |
| T M White | R A Williams | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Tom Evans | Rheolwr Creu Lleoedd a Strategol Cynllunio |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A J Jeffery, R D Lewis a/ac N L Matthews

---

## 12 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau

## 13 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 14 Canllawiau Cynllunio Atodol Newydd: Addasu adeiladau gwledig traddodiadol (Ymgynghoriad Drafft).

Cyflwynodd y Rheolwr Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol adroddiad ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas a roddodd grynodeb i'r Pwyllgor o ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Drafft newydd, a cheisiwyd cymeradwyaeth gan Aelodau i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y CCA drafft.

I gefnogi'r adroddiad a ddosbarthwyd, darparwyd cyflwyniad PowerPoint i'r pwyllgor a oedd yn amlinellu'r meysydd canlynol ac yn manylu arnynt:

- Cefndir y ddogfen ddrafft newydd gan gynnwys y ffaith bod angen diweddaru'r CCA presennol, disgwylir arweiniad newydd ar addasu adeiladau gwledig, mae angen adlewyrchu penderfyniadau apêl, fframwaith cynllunio cenedlaethol newydd, aliniad gwell â pholisïau creu lleoedd ar gyfer Penrhyn Gŵyr a fwy o eglurder ar gyfer ymgeiswyr a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau;
- Problemau allweddol o fewn y CCA - arweiniad ar yr hyn sy'n draddodiadol a'r hyn y mae angen ei ddiogelu, arweiniad gwell ar ddefnydd busnes a ganiateir, meini prawf ar gyfer addasu a chysylltiadau gwell â'r CDU a CCA eraill;
- Addasiadau ac adeiladau newydd - y gwahaniaethau rhyngddynt, y gwaith y mae angen ei wneud i'w addasu ac nid i'w dymchwel/ailadeiladu, cyfyngiadau ar ail-lunio o'n CDU a'n polisi cenedlaethol, arweiniad CCA ar drothwy rhesymol ar gyfer adeiladau a ailadeiladwyd;
- Cynhelir ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu yn ystod y cyfnod o chwe wythnos cyn 6 Hydref, ffurflen a thudalennau gwe ar-lein, ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol amrywiol, archwilio sylwadau a diwygio CCA drafft a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'r fersiwn terfynol gael ei fabwysiadu ar ddiwedd 2023.

Gofynnodd aelodau gwestiynau amrywiol i'r swyddog am yr adroddiad a'r cyflwyniad ac ymatebodd yn unol â hynny.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Addasu Adeiladau Gwledig Traddodiadol drafft, fel yr atodir yn Atodiad A i'r adroddiad, at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus a chynnwys rhanddeiliaid.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.30 pm

**Cadeirydd**